# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y Cyfarfod Llawn a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid, Edwina Hart, ar 13 Tachwedd 2002

**At Holl Aelodau'r Cynulliad:**

Yn ystod cwestiynau'r Cynulliad ar 13 Tachwedd, ymrwymais i roi gwybod i chi pan fydd penderfyniad terfynol wedi'i wneud am y cyllid sydd ar gael ar gyfer Ymgyrch Tarian, sef y dull gweithredu strategol ar y cyd y mae heddluoedd de Cymru yn ei ddatblygu er mwyn osgoi mewnlifiad o gyffuriau dosbarth A a'r gangiau sy'n eu gwerthu.

Gallaf eich hysbysu erbyn hyn y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cyllid rheolaidd o £631,520 yn 2003-04; £636,589 yn 2004-05 a £641,835 yn 2005-06. Yn ogystal, bydd y Cynulliad yn darparu un swm o wariant cyfalaf o £644,500 yn 2003-04. Darperir y cyllid hwn o gronfa newydd cymunedau mwy diogel, a gyhoeddwyd gennyf yn fy nghyllideb ddrafft ac a fydd yn werth £11.2 miliwn dros y tair blynedd nesaf.